

## **Cyngor Cymuned Llanelian (308)**

Cofnodion cyfarfod Chwefror 12, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Elfyn Hughes, Thomas Jones, John Griffiths, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Ian Evans, Helen Hughes, Glenys Jones, Hefina Williams

**Ymddiheuriadau:** Gordon Hayes, Cyng. Richard Jones, Cyng. Aled Jones

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

**Yn absennol:** David Gerrard, Cyng. Richard Griffiths

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.

### **2 Datgan Diddordeb**

Dim

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Dafydd Griffiths, eilio Hefina Williams.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**4.1 Caniatad Arbennig** – Daw cadarnhad gan CSYM bydd y ceisiadau am ganiatad arbennig yn cael ystyried gan y pwyllgor safonau yn eu cyfarfod 7/3/2019.

**4.2 Materion Prifffyrdd** – Deallwyd bod Alun Roberts wedi bod yn monitro traffig ger yr ysgol pnawn ma. Cadarnhaodd Elfyn Hughes ei fod wedi anfon copiau o'r gohebiaeth gyda'r swyddog at yr holl aelodau er gwybodaeth. Cytuno bod dal angen cwrdd ag o i drafod nifer o faterion – cyflwr Lon yr Ysgol hyd Pengorffwysfa, draen Tai Mwd, tyllau yn y ffyrdd, cyflymdra Ffordd Rhald, diogelwch ger yr ysgol. CT

**4.3 Blwch Post** – Daw cadarnhad gan y Post Brenhinol eu bod yn y broses o symud y blwch post ac felly wedi cau'r hen flwch yn yr hen swyddfa bost. Gobeithio bydd mwy o wybodaeth am y blwch newydd tu allan i'r siop yn fuan.

**4.4 Darpariaeth Addysg** – Dim diweddariad.

**4.5 Stad Dublin** – Deallwyd bod nifer o bobl a diddordeb yn y tai ond bod pryderon am argaeledd tai rhent. Cytuno cysylltu a Grwp Cynefin i gael diweddariad swyddogol. CT

**4.6 Hyfforddiant** – Nodwyd bod sesiwn hyfforddiant 'Deall y Gyfraith' wedi ei ail-drefnu ac i'w gynnal nos Fawrth Mawrth 5ed. Bydd Elfyn Hughes, Ian Evans a'r clerch yn mynychu.

Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi cysylltu ag Un Llais Cymru ynglyn a chostau hyfforddiant Cod Ymddygiad. Cytuno holi cynghorau eraill i gadarnhau diddordeb ac argaeledd. Byddai posib rhannu'r gost a gwneud y mwyaf o'r cyfle. CT

### **5 Adroddiadau Pwyllgorau**

**5.1 Caeau Chwarae** – dim diweddariad

- 5.2 Llithrfa** – mae CSYM wedi cynnig i'r cyngor cymuned gael y polyn fflag ym Mae Eilian. Cytuno cymryd y cyfrifoldeb; cynnig Hefina Williams, eilio Dafydd Griffiths. Y clerc i gadarnhau gyda'r swyddogion perthnasol. CT
- 5.3 Mynwent** – nid oes diweddariad am y giat hyd yma. Cytuno gofyn i'r Eglwys am gyfarniad tuag at y giat a charreg coffa i gydnabod cyfraniad Mrs Mair Morris. Daw pris gan H Roberts am y gwaith i ddiogelu'r cistiau. Cytuno cysylltu ag o i gadarnhau y math o offer sydd ei angen a chadarnhau os oes modd ei rhentu er mwyn cwblhau'r gwaith. Cytuno symud ymlaen a gwneud y gwaith sydd bosib heb yr offer arbennigol. CT
- 5.4 Cyllid a Pholisi** – dim diweddariad
- 5.5 Pwyllgorau Allannol** – nodwyd bod y cyfarfod siapio cymunedau oedd i fod i'w gynnal 29/1 wedi ei ohurio oherwydd y tywydd. Nid oes dyddiad arall wedi ei bennu hyd yma. Dafydd Griffiths i gynrychioli'r cyngor ac adrodd yn ol.
- 6 Cynllunio**
- 6.1 Ceisiadau** – Roedd pedwar cais i'w ystyried: CT
- (FPL/2019/13) Sied ger Mast Teleffon Nebo – gwrthwynebu ar sail lleoliad, gweledded a'r AHNE cyfagos.
  - (HHP/2019/35) Sycamor Wydden, Llaneilian Rd – cefnogi
  - (HHP/2019/32) Glan Gors, Llaneilian – dim gwrthwynebiad
  - (HHP/2019/13) Adwy'r Mynydd, Tai Fry - cefnogi
- 6.2 Penderfyniadau** – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM.
- 7 Materion Ariannol**
- 7.1 Taliadau**  
Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£303.54 HMRC (PAYE)  
£120.00 Anglesey Mowers (Coeden)  
£285.87 Carli Evans Thau (Cyflog)  
£192.00 H Roberts (Arolwg Mynwent Eilian)
- 7.2 Ceisiadau am Arian**  
Ni fu ceisiadau i'w ystyried.
- 8 Cronfa Tŷ Moel Isaf**  
Cadarnhawyd bod copiau o'r llythyrau perthnasol wedi eu hafnon i'r aelodau cyn y cyfarfod ynghyd a chyngor NALC.  
  
Cadarnhawyd bod yr arian sydd wedi ei dderbyn gan y cyngor wedi ei rannu fel a ganlyn: 25% cynnal beddi teulu TMI, 75% prosiectau sylweddol.  
  
Trafodwyd gwahanol bosibiliadau ar gyfer strwythyr corff i reoli'r arian yn unol a dymuniadau Mrs Morris. Er bod peth cyngor wedi ei dderbyn gan NALC, gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag adain gyfreithiol CSYM am gyfarwyddyd a threfnu cyfarfod arbennig unwaith bydd mwy o wybodaeth ar gael. CT
- 9 Iechyd a Diogelwch**  
Pryderon diogelwch ffordd yn parhau (gweler materion yn codi o'r cofnodion).
- 10 Wylfa Newydd**  
Cafwyd wybod bod Hitachi yn bwriadu parhau gyda'r broses gynllunio DCO er eu bod wedi atal y gwaith ar y safle. Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths o'r cyfarfod

diwethaf i drafod y datganiad tir cyffredin gan nodi bod nifer o bryderon yn parhau a bod nifer o bwyntiau wedi eu cytuno. Bydd yr arolygaeth gynllunio yn ymweld a'r safle mewn ymateb i rai o'r pwyntiau a nodwyd yn y gwrandawiadau, cyfle fydd rhain i dynnu sylw ond dim i fynegi barn. Bydd y panel arolygu yn gorffen eu gwaith ddiwedd mis Ebrill gyda penderfyniad i'w ddisgwyl ddiwedd y flwyddyn.

Nodwyd bod ymgynghoriad ar y gweill ynglyn a datblygu storfa tanddaearol ar gyfer gwastraff niwclear. Mae cyfarfod yn Llandudno yn fuan – manylion gan Dafydd Griffiths.

**11** **Gohebiaeth**

Dim

**12** **Unrhyw Fater Arall**

**12.1** **Blwch Ffon Porth Eilian** – nodwyd bod nifer o gwynion am gyflwyr y blwch erbyn hyn. Roedd trafodaethau yn y gorffennol am symud y cyfleuster i'r maes parcio. Deallwyd nad oes defnydd ohono. Cysylltu a CSYM i wneud trefniadau i'w ddiddymu. CT

**12.2** **Safle Facebook** – nodwyd bod nifer o gwynion yn ddiweddar am faw ci ac ysbwriel. Roedd rhywun wedi cael gwybod gan CSYM nad oedd unrhyw un arall wedi cwyno, er bod y cyngor cymuned wedi nodi pryderon sawl gwaith. Nododd Elfyn Hughes bod gan CSYM gynllun ar y cyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i osod blychau i ddosbarthu bagiau baw ci. Cytuno cysylltu a'r swyddogion perthnasol i gadarnhau cost tri blwch a bin i Bengorffwysfa. CT

**13** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Mawrth 12, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.35

**Arwyddwyd  
Elfyn Hughes  
Cadeirydd**

CET02/2019